**O EUCHARI IN LETA VIA GAN HILDEGARD O BINGEN**

CYNLLUN GWERSI I'R DOSBARTH CYNRADD gan Katie Teage

GWYLIO'R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

| | |
|---|---|
| **Y cyfansoddwr:** | **HILDEGARD O BINGEN** |
| *Ynganiad:* | HUL-dy-gard o BING-yn (hul- fel yn hulpan) |

- Ganwyd Hildegard o Bingen dros 900 mlynedd yn ôl yn Ewrop Ganoloesol yn ddegfed plentyn i deulu bonheddig. Cyn iddi gyrraedd ei harddegau, gosododd ei rhieni hi ar drywydd gwasanaeth oes i'r eglwys.
- Er bod ei bywyd yn yr eglwys yn waith caled ac iddi gael ei chadw draw oddi wrth fywyd bob-dydd pobl yr Oesoedd Canol, roedd hi'n unigolyn penderfynol a chryf. Arweiniodd grŵp o leianod fel 'priores' a sefydlodd fynachlogydd newydd.
- Ar ôl dod yn briores, dechreuodd Hildegard ysgrifennu gweithiau lleisiol hardd a mynegiannol iawn yn gysylltiedig â'i ffydd a'i gwaith yn yr eglwys. Ond nid dyna ben draw gwaith Hildegard; fe gynhyrchodd hi hefyd weithiau pwysig am feddygaeth a natur, a chreu ei hiaith ei hun, *Lingua Ignota.*
- Erbyn heddiw, mae Hildegard o Bingen yn cael ei dathlu fel un o'r cyfansoddwyr benywaidd pwysicaf yng ngherddoriaeth glasurol y Gorllewin. Cafodd ei henwi'n Ddoethur yn yr Eglwys yn 2012 gan y Pab ac mae hi'n nawddsant cerddorion ac awduron. Mae gan Hildegard hyd yn oed ei dydd gŵyl ei hun ar 17 Medi!

**Y gerddoriaeth:** **O EUCHARI IN LETA VIA**
*Ynganiad:* O EW-cari in LE-ta Fia

- Mae cerddoriaeth Hildegard o Bingen wedi'i hysgrifennu yn Lladin, iaith yr hen Rufain. Yn oes Hildegard, Lladin oedd yr iaith a siaredid ac a ddefnyddid yn eang yn Ewrop fel iaith dysg ac addysg. Y dyddiau hyn, dydyn ni ddim yn siarad Lladin, ond mae gan lawer o eiriau Cymraeg wreiddiau yn yr iaith hynafol hon.
- Testun *O Euchari in leta via* yw 'Euchari', neu Sant Eucharius. Yn ei cherddoriaeth, mae Hildegard yn dathlu cariad ac angerdd ymroddedig Eucharius dros ei ffydd. Efallai bod Hildegard hefyd wedi dysgu bod Eucharius Sant yn bresennol mewn digwyddiadau crefyddol pwysig fel y Swper Olaf a'r Pentecost a'i fod felly yn ffigwr pwysig i'w ffydd.
- Mae'r testun yn llawn canmoliaeth ac edmygedd i Sant Eucharius. Ynghyd ag alawon hardd Hildegard, mae'n caniatáu i wrandäwr glywed sut y gallai abades ddawnus a defosiynol o Ewrop y Canol Oesoedd ysgrifennu cerddoriaeth i fynegi ei hedmygedd o unigolyn arall. Gwrandewch mor hyfryd y mae'r lleisiau'n canu'r deyrnged hynafol iawn hon.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Dysgu am blaengan ac iaith gerddorol briodol i dasgau
- Dysgu am a chreu sgôr graffig
- Chwarae gemau cerddorol i archwilio nodweddion cerddorol dangosol
- Perfformio fel ensemble (neu fel unigolion)

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Papur A3 a phensiliau lliwio (+ deunyddiau celf ychwanegol os dymunir)
- Taflen waith HvB 1 (Sgôr)
- Stensil ffenestr gwydr lliw HvB
- Offerynnau'r ystafell ddosbarth
- Dyfais recordio / fideo

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol yn LLOEGR (CA2)**

- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, defnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Defnyddio a deall hen nodiant a nodiannau cerddorol eraill
- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol

© BBC 2024

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Adnabod amrywiaeth o arddulliau cerddorol a gallu enwi rhai o'r prif offerynnau yn y genre
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi synau, traw, alaw, rhythm, ansawdd (*timbre*) a dynameg
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.
- Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli, cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol
- Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwytnwch a hyblygrwydd

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol
- Gweithio'n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau a chyfeiliannau cerddorol a thrwy ymchwilio i ffyrdd o gadw'r gerddoriaeth y maen nhw wedi'i chreu
- Ymateb yn ddychmygus i ystod ehangach o gerddoriaeth mewn amrywiaeth o arddulliau a chyfryngau

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gweithgareddau gwrando gweithredol<br>Dysgu am blaengan a geirfa gerddorol<br>Trafodaethau ABCh |
| Bwriad dysgu: | Adnabod nodweddion mewn gwahanol genres o gerddoriaeth<br>Nodi sut mae cerddoriaeth yn cael ei defnyddio i ysgogi awyrgylch, naws neu amgylchedd penodol |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gemau i archwilio nodweddion cerddorol dangosol<br>Dysgu am sgoriau graffig<br>Creu sgôr graffig |

© BBC 2024

| | |
|---|---|
| Bwriad dysgu: | Gallu adnabod ac archwilio nodweddion cerddorol dangosol, gan gynnwys tempo, dynameg ac ansawdd<br>Dal a chofnodi syniadau creadigol gan ddefnyddio symbolau graffig<br>Gweld sut y gall nodiant graffig gynrychioli synau a grëwyd, archwilio a dyfeisio eu symbolau eu hunain |

***GWERS 3:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Parhau gyda'r gemau i archwilio nodweddion cerddorol dangosol<br>Tasg gyfansoddi |
| Bwriad dysgu: | Arddangos ystod eang o ddynameg<br>Creu darnau o gerddoriaeth sy'n cynnwys ailadrodd a gwrthgyferbyniad<br>Chwarae offerynnau i greu gwahanol dechnegau ac effeithiau, er enghraifft, staccato (e.e. llawn dirgelwch) a thriliau isel (e.e. tywyll a disgwylgar) |

***GWERS 4:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gemau medr cerddorol i archwilio nodweddion cerddorol<br>Tasg gyfansoddi<br>Perfformio'r darn a gyfansoddwyd |
| Bwriad dysgu: | Arddangos ystod eang o ddynameg<br>Chwarae offerynnau i greu technegau ac effeithiau, er enghraifft, staccato (e.e. llawn dirgelwch) a thriliau isel (e.e. tywyll a disgwylgar)<br>Ymgysylltu ag eraill drwy chwarae ensemble, a'r disgyblion i ymgymryd â rolau alaw neu gyfeiliant |

© BBC 2024

# GWERS 1

*Bwriad dysgu*

- Adnabod nodweddion mewn genres gwahanol o gerddoriaeth
- Nodi sut mae cerddoriaeth yn cael ei defnyddio i ysgogi awyrgylch, naws neu amgylchedd penodol

## 1. CAM CYNTAF

Fel dosbarth, gofynnwch i'r myfyrwyr roi llaw i fyny a dweud wrth y dosbarth beth yw eu hoff ddarn o gerddoriaeth. Anogwch y myfyrwyr i esbonio pam mae'r gerddoriaeth yn arbennig iddyn nhw, ac os yw'n briodol, chwaraewch bytiau o'r darnau hyn i'r dosbarth (ar Spotify neu YouTube). Cofiwch rannu eich hoff un chi hefyd.

Esboniwch i'r dosbarth yr arferai cerddoriaeth gael ei rhannu gyda phobl eraill cyn cael ei recordio, a hefyd cyn cael ei hysgrifennu ar bapur. Byddai pobl yn gwrando ar y gerddoriaeth ac yn copïo'r hyn roedden nhw'n ei glywed.

Byddai hyn yn aml yn digwydd mewn cyd-destun crefyddol ac mae hynny'n dal yn wir heddiw. Mae cerddoriaeth yn chwarae rhan bwysig mewn llawer o grefyddau ac yn cael ei defnyddio mewn sawl ffordd wahanol:

- Mewn Bwdhaeth, gall cerddoriaeth helpu pobl i ganolbwyntio cyn myfyrdod
- Yng nghrefydd y Sikh, mae cerddoriaeth, a elwir yn Kirtan, yn helpu pobl i gysylltu â dysgeidiaeth a Duw'r grefydd
- Mewn Iddewiaeth, defnyddir cerddoriaeth i adrodd y Tora
- Mewn Islam, caiff yr alwad i weddi ei hadrodd yn aml mewn tôn melodaidd

Mae cerddoriaeth grefyddol yn helpu pobl o bob crefydd i gysylltu â'u ffydd a chofio'u gwerthoedd crefyddol. Gofynnwch i'r plant yn eich dosbarthiadau rannu eu profiadau gyda'u crefyddau (os ydynt yn gyfforddus) a'r gerddoriaeth y maen nhw'n gwrando arni.

## 2. GWEITHGAREDD

Gwyliwch a gwrandewch ar y ffilm am *O Euchari in leta via* Hildegard o Bingen.

Wrth i'r myfyrwyr wrando, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud iddyn nhw deimlo (gall hyn fod mewn brawddegau neu restr). Trafodwch rai o'r ymatebion hyn fel dosbarth a chasglwch eu syniadau ar y bwrdd. Wrth drafod, cyflwynwch eiriau sy'n disgrifio lliw tymereddau, tirweddau, ac emosiynau a adlewyrchir yn y gerddoriaeth – bydd hyn yn cefnogi'r cam nesaf yn y wers hon.

© BBC 2024

3. **Y BRIF DASG**

Dosbarthwch daflen waith HvB 1 (Sgôr) a phensiliau lliw.

Ar y bwrdd gwyn, dangoswch i'r plant yr hen lawysgrif (Hen Lawysgrif HvB). Eglurwch fod y ddau sgôr yn cynrychioli'r un darn o gerddoriaeth. Gofynnwch i'r plant gymharu Taflen Waith 1 HvB (wedi'i hargraffu o'u blaenau) â Hen Lawysgrif HvB (ar y bwrdd gwyn), ac anogwch nhw i sylwi ar unrhyw debygrwydd neu wahaniaethau.

Gwrandewch ar y recordiad o *O Euchari in leta via* a gofynnwch i'r plant liwio Taflen Waith HvB 1 (y sgôr) wrth iddynt wrando ar y lliwiau y mae'r darn yn eu hawgrymu – er enghraifft, gallai gwyrdd awgrymu tawelwch, gallai piws awgrymu dirgelwch ac ati. Anogwch y plant i fod yn greadigol, does dim atebion cywir/anghywir o ran pa liwiau maen nhw'n eu defnyddio! Efallai na fyddan nhw'n gwybod sut i ddilyn cerddoriaeth y sgôr: popeth yn iawn. Dywedwch wrthynt fod y gerddoriaeth yn dangos sut mae'n symud i fyny ac i lawr o ran traw. Po uchaf yw'r dot ar y grŵp o linellau, uchaf yw'r nodyn, a pho isaf y mae wedi'i osod, isaf yw'r sain.

Ar ôl iddyn nhw wrando arni ddwywaith, gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio sut mae'r gerddoriaeth yn swnio. Efallai y dywedan nhw bethau fel:

- Un llais sy 'na
- Dwi ddim yn siŵr pa iaith ydi o, ond mae'n wahanol i'n hiaith ni
- Dwi ddim yn gallu teimlo curiad
- Mae'n swnio'n drist ond hefyd yn wahanol

Eglurwch mai **Plaengan** ydi'r enw ar y math hwn o gerddoriaeth. Dyma'i nodweddion:

- Monoffonig o ran gwead (un llinell)
- Canu a cappella (dim cyfeiliant)
- Canu yn Lladin
- Di-fydr (dim ymdeimlad o guriad; gall y canwr ganu ar unrhyw gyflymder)
- Wedi'i gyfansoddi mewn moddau neu'n foddol (nid mewn graddfa fwyaf neu leiaf fel y gwneir fel arfer heddiw)
- Mae hefyd yn cynnwys nodwedd arbennig o'r enw **melisma** (canu un sillaf ar lawer o nodau). Pan fydd darn o gerddoriaeth yn cynnwys **melismata,** gellir ei alw'n **felismatig**

4. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw ystyr A Cappella?** | Lleisiau'n canu heb gerddoriaeth |
| **Ym mha iaith mae O Euchari in leta via?** | Lladin |
| **Beth yw graddfa?** | Grŵp o nodau wedi'u trefnu i esgyn neu ddisgyn fesul cam mewn traw yw graddfa. |
| **Beth yw modd?** | Math o raddfa |

© BBC 2024

# GWERS 2

*Bwriad dysgu*

- Gallu adnabod ac archwilio nodweddion cerddorol dangosol, gan gynnwys tempo, dynameg ac ansawdd.
- Dal a chofnodi syniadau creadigol gan ddefnyddio symbolau graffig
- Deall sut y gall nodiant graffig gynrychioli synau a grëwyd, archwilio a dyfeisio eu symbolau eu hunain

## 1. GÊM I GYNHESU

Mae'r gweithgaredd cynhesu hwn yn helpu plant i archwilio'r ystod o synau, lliwiau a dynameg y gallant ei chreu gyda'u hofferynnau, gan eu paratoi ar gyfer gweithgareddau diweddarach. **Dynameg** yw'r gair a ddefnyddir gan gerddorion i ddisgrifio pa mor uchel neu dawel yw sain.

| **TAWELACH** | ◄──── | | | | | ────► | **CRYFACH** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *ppp* | *pp* | *p* | *mp* | *mf* | *f* | *ff* | *fff* |
| pianississimo | pianissimo | piano | Mezzo piano | mezzo forte | forte | fortissimo | fortississimo |

Defnyddir geirfa Eidaleg i'w disgrifio yn aml.

Sicrhewch fod gan bob plentyn offeryn neu offerynnau i'w chwarae. Eglurwch eich bod am chwarae gêm lle mae gwahanol ystumiau'n cynrychioli gwahanol ddynameg.

| **YSTUM** | **DYNAMEG** |
|---|---|
| Agor eich dwylo | Chwarae yn uchel iawn (forte) |
| Cau eich dwylo | Chwarae yn dawel iawn (piano) |
| Symud rhwng dwylo agored a chaeedig | Chwarae pob dynameg rhwng y ddau begwn (gweler y tabl uchod) |
| Dwylo gyda'i gilydd | Distawrwydd |

© BBC 2024

Ymarferwch symud o uchel i dawel ac i'r gwrthwyneb, gan anelu at yr ystod lawn o ddynameg. Allwch chi chwarae'n dawelach fyth neu'n uwch fyth? Anogwch blant i ddod i arwain gan ddefnyddio'r signalau hyn i greu darnau byr sy'n archwilio uchel a distaw.

Nesaf, gwnewch yr ymarfer eto gan ddefnyddio'r un ystumiau ag uchod ond gyda phegynau gwahanol yn lle cryf a thawel, er enghraifft:

- Llawer o nodau i ychydig o nodau
- Seiniau pigog i seiniau llyfn
- Synau sgleiniog i synau garw
- Nodau ar hap i nodau cord E leiaf (E G B)
- Unrhyw begynau eraill a awgrymir gan y plant


Gyda'r pegynau hyn, heriwch y plant i fod mor bigog neu lyfn â phosibl (yr ail a'r trydydd) a newid o liaws o nodau i grŵp penodol o nodau (y cyntaf a'r pedwerydd).

2. **GWEITHGAREDD**

Rydyn ni'n mynd i greu cyfansoddiadau gan ddefnyddio sgoriau graffig. Esboniwch fod sgôr graffig yn cynrychioli cerddoriaeth trwy luniau, symbolau a lliwiau yn lle hen nodiant traddodiadol.

Gofynnwch i'ch dosbarth a ydyn nhw'n meddwl y gall llinellau gael emosiwn ac os felly, beth ydyn nhw?

Gofynnwch i'r disgyblion arbrofi drwy chwarae'r llinellau hyn (gweler PowerPoint am fersiwn fwy) ar offerynnau cerdd neu eu canu, gan feddwl sut y gallan nhw ddehongli neu drosi'r gwahanol linellau yn synau cerddorol:



© BBC 2024

Pwysleisiwch fod sgoriau graffig yn helpu myfyrwyr i ddeall strwythur ac elfennau cerddoriaeth, megis traw, hyd, dynameg ac ansawdd, heb fod angen darllen hen nodiant cerddorol traddodiadol. Felly nid darlun fydd hwn; bydd dechrau a diwedd i'r 'gwaith celf' gan y bydd yn cynrychioli'r sain yn symud trwy amser.

## 3. Y BRIF DASG

Cyn i fyfyrwyr ddechrau eu sgoriau graffig eu hunain, efallai y byddai'n ddefnyddiol ailedrych ar y gwaith o'r wers ddiwethaf a thrafod y lliwiau a enwyd ganddynt yn ystod eu hymateb emosiynol a'u lliwiau wrth ymateb i'r gerddoriaeth.

Gwrandewch ar y darn eto **sawl gwaith** a darparwch ddarnau mawr o bapur. Anogwch y myfyrwyr i fod mor greadigol ag y mynnant yma wrth greu eu sgoriau graffig. Efallai y dewiswch gadw at A3 gyda phensiliau a phen, neu gallech ddewis defnyddio darnau mawr o bapur siwgr gyda phastelau, paent a hyd yn oed deunydd collage. Darparwch bapur, marcwyr, pensiliau lliw, a chyflenwadau celf eraill.

Ar ôl iddyn nhw orffen, eglurwch y byddan nhw'n defnyddio'r graffeg hon i greu eu darn eu hunain o gerddoriaeth. Gallant gadw hyn o fewn y genre neu'r blaengan, h.y:

- monoffonig o ran gwead (un llinell)
- canu *a cappella* (dim cyfeiliant)
- canu yn Lladin
- di-fydr (dim teimlad o guriad; gall y canwr ganu ar unrhyw gyflymder)
- wedi'i gyfansoddi mewn moddau neu'n foddol (nid mewn graddfeydd mwyaf neu leiaf fel a wneir fel arfer heddiw) – gellir defnyddio'r nodau EFGABCDE mewn patrwm tebyg i raddfa yma

Neu, gallant greu darn gyda llinellau lluosog. Rhannwch y plant yn barau a gofynnwch iddyn nhw gyfuno'u sgoriau graffig i greu darn mwy. Dylent ddechrau ysgrifennu i lawr sut maen nhw'n meddwl y byddai eu darnau'n swnio ar ddarn o bapur wrth ymyl eu lluniau.

## 4. Cwis Dewisol

| | |
|---|---|
| **Beth yw dynameg?** | Pa mor uchel neu dawel y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| **Beth yw ystyr piano?** | Tawel |
| **Beth yw ystyr forte?** | Uchel, cryf |
| **Beth yw gwead mewn cerddoriaeth?** | Haenau'r gerddoriaeth (e.e. alaw, trawsacenion, llinell fas) |
| **Beth mae'n ei olygu os yw rhywbeth yn fonoffonig o ran gwead?** | Dim ond un llinell neu haen sydd ganddo |

© BBC 2024

# GWERS 3

*Bwriad dysgu*

- Arddangos ystod eang o ddynameg
- Creu darnau o gerddoriaeth sy'n cynnwys ailadrodd a gwrthgyferbyniad
- Chwarae offerynnau i greu gwahanol dechnegau ac effeithiau, er enghraifft, staccato (e.e. llawn dirgelwch) a thriliau isel (e.e. tywyll a disgwylgar)

## 1. **CYNHESU**

Dosbarthwch offerynnau'r ystafell ddosbarth. Gofynnwch i'r dosbarth chwarae synau byr, tawel iawn gyda seibiau rhyngddyn nhw, fel diferion glaw, pob un yn chwarae ar wahanol amserau. Gofynnwch iddyn nhw sut allai hyn edrych ar dudalen fel symbol; er enghraifft, dotiau ar dudalen efallai. Trafodwch gyda'r dosbarth pa fathau eraill o synau y gallech eu defnyddio i greu gweadau cerddorol gwahanol, fel:

- Synau byr, sigledig gyda bylchau rhyngddyn nhw
- Patrymau graddfa yn codi neu'n disgyn
- Nodau cryf, estynedig
- Ffigurau llyfn, tonnog yn symud rhwng dau nodyn
- Igamogamu'n acennog rhwng nodau uchel ac isel

Penderfynwch ar y cyd ar symbolau y gellid eu llunio ar gyfer pob gwead sain newydd, wedyn ymarferwch bob un gan edrych ar y symbolau. Gwahoddwch y plant i ddod i'r blaen ac arwain gan agor a chau'r dwylo fel yn y wers flaenorol i reoli'r sain.

## 2. **GWEITHGAREDD**

Rhannwch y dosbarth yn ôl i'w grwpiau gyda'u sgoriau graffig a'u disgrifiadau ysgrifenedig o'r darnau. Gofynnwch iddyn nhw anodi eu sgoriau ymhellach gyda'r symbolau a grëwyd gan y dosbarth. Bydd hyn yn eu helpu i ddiffinio'r synau ymhellach. Gofynnwch i'r plant restru'r offerynnau maen nhw'n credu y bydd arnyn nhw'u hangen i chwarae eu darnau.

Dosbarthwch offerynnau i'r plant er mwyn iddyn nhw allu ymarfer eu darnau. Anogwch nhw i archwilio'r holl synau gwahanol y gall un offeryn eu gwneud. Atgoffwch nhw y gallan nhw ddal i ddefnyddio'u lleisiau fel offerynnau.

Tra bo'r plant yn gweithio ar eu darnau, recordiwch neu ffilmiwch nhw a gofynnwch iddyn nhw wrando neu wylio'u darnau. I'w helpu i ddatblygu eu syniadau ymhellach, gofynnwch iddynt ystyried ac ysgrifennu i lawr beth maen nhw'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi/meddwl ei fod yn gweithio'n dda/angen ei wella. Mae dadansoddi a mireinio eu sgoriau yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau.

© BBC 2024

# GWERS 4

*Bwriad dysgu*

- Arddangos ystod eang o ddynameg
- Chwarae offerynnau i greu technegau ac effeithiau, er enghraifft, staccato (e.e. llawn dirgelwch) a thriliau isel (e.e. tywyll a disgwylgar)
- Ymgysylltu ag eraill drwy chwarae ensemble, a’r disgyblion i ymgymryd â rolau alaw neu gyfeiliant

1. **CYNHESU**

Dechreuwch y wers drwy edrych eto ar y cyferbyniadau cerddorol y buom yn gweithio arnyn nhw dros y sesiynau diwethaf. Gellir gwneud hyn gyda’r llais neu’r offerynnau:

- Cryf a thawel
- Cyflym ac araf
- Pigog a llyfn
- Hir a chwta
- Uchel ac isel

2. **GWEITHGAREDD**

Dysgwch y gêm glapio ‘Seithdro’ i’r plant. Gellir chwarae’r gêm hon yn eistedd ar garped neu wrth fyrddau.

Mae pedwar patrwm clapio i’w dysgu.

Tapiwch eich coesau neu’r bwrdd x 7 – gwnewch hyn ddwywaith gyda bwlch un tap (neu saib un curiad) rhwng y ddau dro:

| | |
|---|---|
| **PATRWM 1** | **Cyfrif**: 1 2 3 4 5 6 7 (Saib)<br>**Cyfrif**: 1 2 3 4 5 6 7 (Sibrwd 8)<br>**Taro**: Tap Tap Tap Tap Tap Tap Tap (Saib)<br>**Taro**: Tap Tap Tap Tap Tap Tap Tap (Saib) |
| **PATRWM 2** | **Taro**: Tap Clap Tap Clap Tap Clap Tap (Saib)<br>**Taro**: Tap Clap Tap Clap Tap Clap Tap (Saib) |

© BBC 2024

| | |
|---|---|
| **PATRWM 3** | **Taro**: Tap Clap Clic Tap Clap Clic Tap (Saib)<br><br>**Taro**: Tap Clap Clic Tap Clap Clic Tap (Saib) |
| **PATRWM 4** | Croeswch y dwylo tra’n tapio<br><br>**Taro**: Tap Croesi Tap Clap Clic Clap Tap (Saib)<br><br>**Taro**: Tap Croesi Tap Clap Clic Clap Tap (Saib) |

Wedyn rhowch y rhannau at ei gilydd yn y drefn hon: 1, 2, 3, 4, 3, 2, 1. Yna gallwch chwarae’r gêm gan ddefnyddio ein cyferbyniadau cerddorol: araf/cyflym, cryf/tawel, ac ati. Dechreuwch yn araf cyn adeiladu!

**3. Y BRIF DASG**

Dosbarthwch y sgoriau graffig o’r wers ddiwethaf, nodiadau y mae’r plant wedi’u gwneud i gyd-fynd â nhw, ac offerynnau’r ystafell ddosbarth. Rhowch amser i’r plant ymarfer eu darnau, ac yna gofynnwch iddyn nhw eu perfformio nhw i’r dosbarth.

Ar ôl pob perfformiad, anogwch y plant i egluro sut y penderfynon nhw ar y synau o’u sgoriau graffig.

**4. SESIWN GLOI**

Byddai plaengan yn aml yn cynnwys llinellau o’r Beibl neu eiriau unigol fel Haleliwia, a byddai’n cael ei chanu ar adegau penodol yn ystod gwasanaeth eglwysig. Yn yr Oesoedd Canol, doedd ’na ddim trydan, a doedd fawr o neb yn gallu darllen. Byddai pobl yn mynychu’r eglwys ac yn cael profiad synhwyraidd dwfn, wrth fod mewn adeilad mawreddog gyda goleuadau tawel, arogldarth a cherddoriaeth yn atseinio o’u cwmpas. Byddai’r gerddoriaeth wedi ‘dyrchafu llygaid’ pobl wrth iddi atseinio a datseinio o gwmpas yr eglwys, a byddai pobl wedi profi’r gerddoriaeth mewn ffordd arbennig iawn.

Tuag adeg y cyfansoddiad hwn, roedd ffenestri gwydr lliw yn cael eu dyfeisio. Dychmygwch ryfeddod y gynulleidfa o weld goleuadau lliw gwahanol yn llifo i’r adeilad pan fyddai’r haul yn tywynnu. Dosbarthwch stensil ffenestr gwydr lliw HvB i’r dosbarth ynghyd â phensiliau/ pinnau lliwio. Gwrandewch ar y darn un tro olaf, ac wrth i’r plant wrando, gofynnwch iddyn nhw liwio stensil y ffenestr wydr lliw, gan ddychmygu pa mor wefreiddiol fyddai’r olygfa pe bai’r haul yn tywynnu trwy eu ffenestr nhw.

© BBC 2024

**CAMAU PELLACH**

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **CELF:** Nid cerddor yn unig oedd Hildegard o Bingen ond awdur toreithiog am feddygaeth naturiol. Dyluniwch ffenestr wydr lliw gyda phortread o fenywod pwysig eraill yn hanes meddygaeth. Gallwch ddefnyddio papur du i greu ffrâm a phapur sidan i greu 'gwydr' i'w liwio fel bod modd gweld y lliwiau pan gaiff ei lynu ar ffenestr.

- **DAEARYDDIAETH:** Ganwyd Hildegard o Bingen yn Bermersheim vor der Höhe yn yr Almaen. Cymharwch y pentref hwn â lle rydych chi'n byw. Gofynnwch gwestiynau fel:
    - Pa nodweddion ffisegol sydd yn y lle yma? (bryniau, mynyddoedd, afonydd, arfordir, coedwigoedd, llystyfiant a dyffrynnoedd)
    - Pa fusnesau neu weithfeydd sydd yn yr ardal yma?
    - Sut hinsawdd sydd yma?
    - Beth yw'r boblogaeth?
    - Pa mor bell i ffwrdd yw trefi eraill?
    - Oes yna unrhyw nodweddion tir neu adeiladau enwog yn y cyffiniau?

## GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| A Cappella | Heb gyfeiliant |
| Ansawdd | Ansawdd sain penodol offeryn cerddorol (e.e. bydd gan eich llais ansawdd gwahanol i ffliwt) |
| Di-fydr | Heb deimlad o guriad – gall y canwr neu'r offerynnwr ganu neu chwarae ar unrhyw gyflymder |
| Dynameg | Pa mor uchel neu dawel y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| Forte | Chwarae mewn dynameg uchel |
| Hen nodiant | Nodiant ar erwydd, sy'n 5 llinell lorweddol a 4 gofod sy'n cynrychioli trawiau cerddorol gwahanol |
| Hyd | Pa mor hir y caiff nodyn ei chwarae neu ei ganu |
| Llawysgrif | Darn o gerddoriaeth wedi'i ysgrifennu â llaw |
| Melisma | Un sillaf wedi ei chanu dros lawer o nodau |
| Moddau / moddol | Math o raddfa neu drefn trawiau – nid y graddfeydd mwyaf neu leiaf a gaiff eu defnyddio fel arfer heddiw |
| Monoffonig | Un llinell o gerddoriaeth |
| Offerynnau traw | Offerynnau sydd â gwahanol drawiau ac y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn, e.e. glockenspiel |
| Piano | Chwarae mewn dynameg dawel |
| Sgôr graffig | Yn lle llinellau a dotiau ar erwydd cerddorol, gall sgorau graffig ddefnyddio pob math o wahanol ddelweddau a symbolau i gerddor eu dehongli |

© BBC 2024